# Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023

**2023 dsc 3**

## RHAN 3

ADEILADAU O DDIDDORDEB PENSAERNÏOL NEU HANESYDDOL ARBENNIG

## PENNOD 2

RHEOLAETHU GWAITH SY'N EFFEITHIO AR ADEILADAU RHESTREDIG

*Apelau i Weinidogion Cymru*

PROSPECTIVE

### 100 Yr hawl i apelio yn erbyn penderfyniad awdurdod cynllunio neu fethiant awdurdod cynllunio i wneud penderfyniad

(1) Mae'r adran hon yn gymwys pan fo cais wedi ei wneud i awdurdod cynllunio—
- (a) am gydsyniad adeilad rhestredig,
- (b) i amodau cydsyniad adeilad rhestredig gael eu hamrywio neu eu dileu, neu
- (c) i fanylion gwaith o dan amod mewn cydsyniad adeilad rhestredig gael eu cymeradwyo.

(2) Caiff y ceisydd apelio i Weinidogion Cymru os yw'r awdurdod cynllunio—
- (a) yn gwrthod y cais, neu
- (b) yn caniatáu'r cais yn ddarostyngedig i amodau neu, yn achos cais i amodau gael eu hamrywio neu eu dileu, yn ei ganiatáu ac yn gosod amodau newydd.

(3) Caiff y ceisydd hefyd apelio i Weinidogion Cymru os nad yw'r awdurdod cynllunio wedi gwneud dim un o'r canlynol o fewn y cyfnod penderfynu—

***Statws*** *Mae'r fersiwn hon o'r ddarpariaeth hon yn rhagolygol.*
***Newidiadau i ddeddfwriaeth:*** *Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023, Adran 100. (See end of Document for details)*

(a) rhoi hysbysiad i'r ceisydd o'i benderfyniad ar y cais, neu
(b) yn achos cais am gydsyniad adeilad rhestredig neu i amodau gael eu hamrywio neu eu dileu, rhoi hysbysiad i'r ceisydd ei fod—
(i) wedi arfer ei bŵer o dan adran 93 i wrthod ystyried y cais, neu
(ii) wedi atgyfeirio'r cais at Weinidogion Cymru o dan adran 94.

(4) Yn is-adran (3) ystyr "y cyfnod penderfynu" yw—
(a) y cyfnod a bennir mewn rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru, neu
(b) cyfnod hwy y cytunir arno yn ysgrifenedig rhwng y ceisydd a'r awdurdod cynllunio.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 100 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 212(2)**

**Statws**
Mae'r fersiwn hon o'r ddarpariaeth hon yn rhagolygol.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023, Adran 100.